



## **Didoli Gwastraff Cymysg yn y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref**

O 1<sup>af</sup> Ebrill 2020, mae Cyngor Dinas Casnewydd yn cyflwyno didoli gwastraff cymysg yng Nghanolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref Casnewydd yn Docks Way. Bydd hyn yn sicrhau bod preswylwyr yn didoli gwastraff cymysg i leihau gwaredu deunyddiau y gellid eu hailgylchu yn ddiangen.

Wrth ddod â bagiau du, neu gynyddion gwastraff cymysg heb eu didoli i'r Ganolfan Ailgylchu, gofynnir i breswylwyr fynd i'r man didoli a gwahanu eitemau ailgylchadwy oddi wrth eitemau na ellir eu hailgylchu a'u rhoi yn y cynwysyddion cywir.

Argymhellir yn gryf eich bod yn gwahanu eich gwastraff cyn mynd i'r Ganolfan Ailgylchu. Bydd gwahanu deunydd ailgylchadwy a'r deunyddiau na ellir eu hailgylchu gartref cyn i chi ymweld yn gwneud eich ymweliad yn haws ac yn gyflymach.

### **Cwestiynau Cyffredin**

#### **Sut bydd yr ardal ddidoli yn gweithio?**

Gofynnir i drigolion sy'n dod â bagiau du neu gynyddion gwastraff cymysg y bwriedir eu gwaredu yn y sgip gwastraff gweddilliol fynd i'r ardal ddidoli. Bydd gweithwyr yn gofyn a yw'r bag yn cynnwys eitemau peryglus neu ddeunyddiau o natur sensitif.

Dylid gosod bagiau ar y byrddau a'u hagor o'r pen uchaf – ni ddylid rhwygo bagiau'n agored.

Bydd eitemau y gellir eu hailgylchu yn cael eu nodi gan weithwyr y safle wrth edrych a bydd y preswylwyr yn eu tynnu. Bydd eitemau'n cael eu rhoi yn y biniau ailgylchu bach wedi'u labelu yn ôl math y deunydd yn yr ardal ddidoli.

Ar ôl tynnu'r holl ailgylchu a phan fo'r gweithredwr yn fodlon, gellir cael gwared ar y gweddill yn y cynhwysydd gwastraff gweddilliol.

Bydd menig, diheintydd golchi dwylo a thyweli papur ar gael i'w defnyddio.

#### **Dydw i ddim eisio dangos cynnwys fy mag**

Os nad ydych eisio dangos cynnwys y bag, siaradwch â gweithiwr. Bydd gweithredwyr yn ymdrin ag ymholiadau â disgresiwn a byddant yn sensitif i anghenion personol gwirioneddol.

Mewn achosion eraill os nad ydych yn dymuno didoli eich ailgylchu ar y safle, rhaid i chi fynd â'ch gwastraff adref i'w ddidoli cyn dychwelyd. Ni chaniateir taflu bagiau sydd heb eu didoli i'r sgiplau gwastraff gweddilliol.

Bydd angen i chi gael gwared ar ddeunyddiau ailgylchadwy o'ch gwastraff cyn i chi ymweld â'r safle. Yn aml, gellir ailgylchu'r rhain wrth ymyl y ffordd ac arbed taith i chi. Mae enghreifftiau yn cynnwys:

- Papur
- Cardfwrdd
- Caniau
- Poteli a jariau gwydr
- Poteli, tybiau a chynwysyddion plastig.
- Tecstilau
- Eitemau trydanol

Os oes angen help arnoch i nodi a chael gwared ar ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu, gall gweithwyr y safle eich cynorthwyo pan fyddwch yn cyrraedd.

Efallai y byddwch yn ei chael yn haws rhoi gwastraff mewn cynhwysydd agored i weld y deunydd ailgylchu yn hawdd.

### **Pam mae'n rhaid i mi wneud hyn?**

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau i Gyngor Dinas Casnewydd ailgylchu 70% o wastraff erbyn y flwyddyn 2025, ac mae angen i ni ailgylchu mwy er mwyn osgoi cosbau ariannol trwm yn y dyfodol.

### **Dydw i ddim yn gwybod beth gallaf i ei ailgylchu**

Bydd gweithwyr ar y safle yn hapus i ateb cwestiynau ac ymholiadau. Cewch wybodaeth am yr hyn y gellir ei ailgylchu yn y ganolfan ailgylchu [yma](#).

### **Mae'r safle bob amser yn brysur, a fydd hyn yn achosi mwy o giwiau?**

Gall Canolfan Ailgylchu Docks Way fod yn brysur iawn. Os oes nifer fawr o breswylwyr yn cyrraedd y safle gyda llawer o wastraff cymysg, gallai hyn arwain at giwio i ddefnyddio'r ardal ddidoli.

Bydd trefnu eich gwastraff cyn ymweld â'r safle yn gwneud eich ymweliad yn gyflymach ac yn haws. Defnyddiwch y cynllun ailgylchu wrth ymyl y ffordd i wneud y gorau o'r hyn y gallwch ei ailgylchu gartref a chreu mwy o le yn eich bin gwastraff cyffredinol. Cewch ragor o wybodaeth am ailgylchu wrth ymyl y ffordd [yma](#) a gwybodaeth am gasgliadau gwastraff gardd [yma](#). Mae oriau agor y safle ar gael [yma](#).

### **A yw'n debygol y bydd hyn yn achosi mwy o dipio anghyfreithlon?**

Na, mae'r mesur hwn yn annog preswylwyr i gymryd cyfrifoldeb am eu gwastraff, gan ddarparu casgliadau ailgylchu wrth ymyl y ffordd yn ogystal â darparu canolfan ailgylchu gwastraff y cartref lle gellir ailgylchu eitemau mwy.

Mae gan y Cyngor dîm gorfodi sy'n gweithio'n llawn amser yn dilyn achosion o dipio anghyfreithlon a gwastraff gormodol. Mae tipio anghyfreithlon yn weithgarwch anghyfreithlon sy'n effeithio'n negyddol ar bawb sy'n byw yng Nghasnewydd, yn gweithio yno ac yn ymweld â Chasnewydd ac mae ganddo gost enfawr nid yn unig ar y Cyngor ond ar yr amgylchedd hefyd. Bydd ein tîm gorfodi yn ymchwilio a bydd unrhyw un y canfyddir ei fod wedi tipio'n anghyfreithlon yn destun camau gorfodi.